

TÎM COMISIYNU CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

<u>Enw/Cyfeiriad y Darparwr:</u>	Enable Care Services, Fair Oak Farm, Teras y Coetir, Argoed, Coed Duon, NP12 0HA
<u>Dyddiad yr Ymweliad:</u>	Dydd Mawrth 18 Rhagfyr 2018
<u>Swyddog(ion) Ymweld:</u>	Amelia Tyler: Swyddog Monitro Contract
<u>Yn bresennol:</u>	Laura Witcombe: Rheolwr, Enable Care Services

1. Cefndir

- 1.1** Mae Tŷ Gwernen yn gartref mawr ar wahân y tu allan i dref Coed Duon. Mae'r Cartref yn eiddo i Enable Care Services ac fe'i cofrestrwyd gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2007 i ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 6 o oedolion iau (18 oed a hŷn) ag anghenion iechyd meddwl.
- 1.2** Ar adeg yr ymweliad, roedd 6 o bobl yn byw yn y cartref: roedd 5 ohonynt wedi cael cymorth gan Gaerffili i symud, ac 1 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.
- 1.3** Cwblhawyd yr ymweliadau monitro blaenorol ar 28 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2017 ac ar yr adegau hynny roedd 2 weithred cywirol a 5 gweithred ddatblygiadol wedi'u nodi. Pwrpas yr ymweliad hwn oedd penderfynu a oedd y camau hyn wedi'u cwblhau ac i weithio drwy'r offeryn monitro a ddefnyddir gan y tîm comisiynu. Amlinellir y canfyddiadau yn adran 2 yr adroddiad hwn.
- 1.4** Yn ddibynnol ar y canfyddiadau o fewn yr adroddiad, rhoddir gweithredoedd cywirol a/neu ddatblygiadol i'r darparwr eu cwblhau. Gweithredoedd cywirol yw'r rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (fel y'u rheolir gan ddeddfwriaeth ac ati) a gweithredoedd datblygiadol yw'r rhai y tybir eu bod yn arfer da.

2. Argymhellion Blaenorol

- 2.1** Asesiadau risg a chynlluniau personol i drigolion gael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a ddarperir (NMS 6.10)
Cyflawnwyd yn rhannol. Nodwyd bod adolygiadau'n cael eu cwblhau ar gyfer yr holl drigolion, ac mewn rhai achosion roedd y rhain yn amlach na'r 3 mis angenrheidiol (fel y nodwyd gan y canllawiau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA) newydd). Gwelwyd 2 ffeil lle'r oedd adolygiadau wedi mynd dros yr amserlen hon a dywedodd y rheolwr y byddai hyn yn cael ei ddiwygio.
- 2.2** Arolygon i'w hanfon at aelodau'r teulu i gael adborth ar y gwasanaeth (NMS 30.7)
Cyflawnwyd. Dangoswyd tystiolaeth yn yr adroddiad sicrwydd ansawdd blynyddol. Dychwelwyd ond 2 o'r 10 arolwg a anfonwyd allan, ond roedd y rheolwr yn teimlo bod hyn oherwydd bod yr holl staff gofal yn hawdd mynd atynt a bod unrhyw faterion yn cael sylw yn brydlon.

- 2.3** Gwybodaeth ychwanegol i'w hymgorffori mewn cofnod o weithgareddau fel tystiolaeth o hyrwyddo annibyniaeth.
Cyflawnwyd yn rhannol. Nodwyd bod un o'r cofnodion gweithgareddau yn amlygu bod un o'r preswylwyr wedi tacluso'u hystafell ar 06.12.18. Nid oedd unrhyw beth arall ar unrhyw un o'r ffeiliau eraill y gwelwyd er mwyn gallu cwblhau'r cam hwn.
- 2.4** Pan dderbynnir cwyn, mae hyn i'w rannu yn ffurfiol gyda'r tîm staff neu'r unigolyn dan sylw, yn dibynnu ar natur y gŵyn.
Cyflawnwyd. Ailadroddwyd y byddai'r ffordd y caiff cwynion eu rhannu yn dibynnu ar natur y gŵyn, h.y. ni fyddai gwybodaeth gyfrinachol yn cynnwys aelod o staff yn cael ei thrafod yn ystod cyfarfod staff. Cofnodwyd un pryder a dderbyniwyd yn briodol yn y llyfr cyfathrebu ar 09.04.18 a thrafodwyd yn ystod y cyfarfod trosglwyddo.
- 2.5** Gweithwyr allweddol i sicrhau bod cyfarfodydd adolygu'n cael eu cwblhau bob yn ail fis ac os nad yw hyn yn bosibl, dylid cofnodi rheswm clir.
Cyflawnwyd. Roedd tystiolaeth bod hyn yn cael ei wneud a dywedodd y rheolwr fod disgwyl yr un nesaf erbyn diwedd y mis.
- 2.6** **Pob aelod o staff i fod yn wylidwrus wrth gofnodi unrhyw wrthodiadau gan bobl nad ydynt am gymryd rhan mewn gweithgareddau.**
Cyflawnwyd yn rhannol. Roedd tystiolaeth ar ffeil o breswylwyr nad oeddent yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd, a gwelwyd yn ystod yr ymweliad bod un o'r dynion yn dweud nad oeddent yn dymuno mynd allan oherwydd y tywydd. Roedd rhai achosion lle'r oedd y gweithgareddau yn fach iawn ac yn ailadroddus ac nid oedd yn glir a oedd hyn oherwydd cyfyngiadau neu ddymuniadau'r preswilydd.
- 2.7** Staff i fod yn ystyrllon o'r iaith a ddefnyddir wrth gofnodi gwybodaeth i sicrhau nad yw'n swnio fel pe bai staff yn deyrn ar y cartref a bod preswylwyr ond yn gallu gwneud rhai gweithgareddau arbennig yn ystod amseroedd penodol.
Cyflawnwyd. Ni welwyd unrhyw beth yn ystod yr ymweliad monitro a awgrymodd fod y cartref yn cael ei weithredu i gyd-fynd â dewisiadau staff. Ni awgrymodd yr iaith a ddefnyddiwyd fod unrhyw weithgareddau wedi'u cyfyngu i amseroedd penodol ac ymddengys bod aelodau'r staff yn hyblyg wrth gynorthwyo preswylwyr i wneud unrhyw beth yr oeddent yn dymuno ei wneud.

3. Canfyddiadau o'r Ymweliad

3.1. Hyfforddiant

- 3.1.1** Darparwyd copi o'r matrices hyfforddiant cyn yr ymweliad monitro a dangosodd hyn fod staff yn cwblhau cyrsiau hyfforddiant gorfodol megis iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, diogelu a rheoli heintiau. Holodd y swyddog monitro contract pam fod un aelod o staff wedi cofnodi 'NA' ger yr hyfforddiant meddyginiaeth ac esboniwyd nad yw'r gweithiwr hwn yn gweinyddu unrhyw feddyginiaeth.

- 3.1.2** Roedd 3 o ddechreuwyd newydd ac 1 aelod o staff a oedd ar gyfnod mamolaeth, a hynny oedd yn cyfrif am rai bylchau yn y matrices.
- 3.1.3** Dywedwyd bod yr hyfforddiant yn bennaf yn yr ystafell ddosbarth yn y cartref a chydnabuwyd bod y rheolwr hefyd yn hyfforddwr cymwysedig. Cynhaliwyd trafodaeth o gwmpas y rheolwyr cartref yn cyfnewid cartrefi i hyfforddi aelodau staff ei gilydd fel ei fod yn tynnu'r elfen o fod yn rhy gyfarwydd, ac y gallai helpu i godi trafodaeth o safbwynt allanol.
- 3.1.4** Er y nodwyd bod y rheolwr yn gweithio'n uniongyrchol gyda staff a phreswylwyr ac yn cynnal llawer o arsylwadau, mae diffyg dogfennaeth i gefnogi hyn. Argymhellir cyn cynnal goruchwyliad ffurfiol, neu yn fuan ar ôl sesiwn hyfforddi, bod arsylwad ffurfiol yn cymryd lle, ac yn cael ei recordio a'i fwydo nôl i'r unigolyn.

3.2. Staffio

- 3.2.1** Ers yr ymweliad monitro diwethaf, soniwyd bod 8 o weithwyr wedi gadael ac roedd 8 wedi dechrau yn y cartref sy'n cynrychioli 53% o'r holl grŵp staff. Dywedwyd wrth y swyddog monitro contract hefyd fod 1 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth ar adeg yr ymweliad.
- 3.2.2** Mae'r cynnig rhagweithiol Cymraeg yn fframwaith y llywodraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal gynig gwasanaethau gofal Cymraeg i'r un safon â rhai Saesneg. Amlygwyd nad oedd yr un o'r preswylwyr presennol yn sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg: fodd bynnag gan nad oes aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg, ni fyddai Tŷ Gwernen yn gallu gweithredu'r cynnig rhagweithiol ar hyn o bryd. Nodwyd bod datganiad o ddiben yn nodi y bydd unrhyw rai o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg ar gais.
- 3.2.3** Dywedwyd mai'r lefelau staffio yn y cartref yw 3 aelod o staff a'r rheolwr a 2 yn ystod y nos. Dywedodd y rheolwr fod hwn yn briodol ar gyfer anghenion cymorth y preswylwyr presennol â'u hanghenion cyfredol.
- 3.2.4** Ni ddefnyddir staff asiantaeth a sicrheir bod trefniadau mewn lle i lenwi unrhyw absenoldebau gan y tîm staff neu gan weithiwr arall o un o'r chwaer gartrefi. Amlygwyd nad oedd unrhyw weithiwr yn gweithio dros 48 awr yr wythnos. Nodwyd ar y matrices goruchwylio mai dim ond 3 aelod o staff a fynychodd eu harfarniad blynyddol a dywedodd y rheolwr ei fod wedi bwriadu cwblhau hyn erbyn diwedd y flwyddyn. D.S. Yn dilyn yr ymweliad dywedodd y rheolwr fod yr holl arfarniadau wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr.

3.3. Awdit ffeiliau a dogfennaeth

- 3.3.1** Edrychwyd ar 2 ffeil staff fel rhan o'r ymweliad monitro ac roedd y ddau ffeil yn cynnwys cofnod cyfweiliad cyflawn. Nododd y swyddog monitro contract mai dim ond 1 cyfwelydd oedd wrth benodi'r gweithwyr hyn: er mwyn sicrhau cysondeb a barn gytûn, mae'n arfer da cael o leiaf 2 gyfwelydd.
- 3.3.2** Er bod cofnodion cyfweiliadau ar ffeil, nid oedd y cyfwelydd wedi llofnodi'r rhain ac nid oedd y dynodiad wedi'i gofnodi chwaith. Mae'r wybodaeth hon i'w nodi er mwyn

sicrhau bod dogfennaeth lawn gywir yn cael ei chadw a hefyd bod tystiolaeth bod y cyfweilydd yn meddu ar gymwysterau addas ac mewn safle priodol o fewn y cwmni i recriwtio gweithwyr newydd.

- 3.3.3** Edrychodd y swyddog monitro contract ar 2 ffeil breswilydd yn ystod y cyfarfod ac roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg priodol i gynorthwyo staff gofal i ddiwallu eu hanghenion. Roedd yn amlwg bod atgyfeiriadau wedi'u gwneud i weithwyr proffesiynol meddygol perthnasol lle bo hynny'n briodol.
- 3.3.4** Eglurwyd mai dim ond asesiadau cyn-dderbyn sydd yn eu lle ar gyfer y 2 breswilydd mwyaf diweddar: eglurodd y rheolwr fod y rhain wedi'u cwblhau ers iddi fod yn y swydd a byddant yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw berson sy'n bwriadu symud i'r cartref yn y dyfodol.
- 3.3.5** Nid oedd y canllaw i breswylwyr wedi dyddio ac fe'i hamlygwyd er mwyn dangos ei fod wedi'i adolygu'n flynyddol, dylai hyn fod wedi ei ddyddio'n glir. Gwelwyd yr holl bolisiâu a gweithdrefnau angenrheidiol eraill (fel sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth) ac fe'u cedwir ar ffeil. Nodwyd nad oedd rhai o'r rhain wedi cael eu hadolygu ers 2016 ond dywedodd y rheolwr y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu ym mis Ionawr 2019. Er mwyn sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n unol â hyn, argymhellir bod y rhain wedi'u llofnodi a'u dyddio gyda dynodiad y person sy'n ei adolygu a'r dyddiad adolygu nesaf.

3.4 Sicrhau ansawdd

- 3.4.1** Yn dilyn yr ymweliad, anfonodd yr unigolyn cyfrifol gopi o'i adroddiad chwarterol rheoliad 27: cwblhawyd hyn ar 19.12.18 ac fe'i hamlinellodd fod y gofynion ym mhob un o'r 21 adran naill ai'n cael eu bodloni neu'n rhagori arnynt.
- 3.4.2** Ers yr ymweliad monitro blaenorol, cafwyd 2 fân gŵyn a chofnodwyd y ddau ohonynt yn eglur a chafodd y ddau ganlyniad eu bwydo'n ôl i'r achwynydd ar lafar fel y gofynnwyd. Dywedodd y rheolwr fod llythyr ffurfiol wedi'i gynnig ond nad oedd angen.
- 3.4.3** Oherwydd natur y pryder a godwyd, nid oes angen gweithredu er mwyn atal cwynion tebyg yn y dyfodol. Pan ofynnwyd iddo, dywedodd y rheolwr nad oeddent wedi cael unrhyw ganmoliaeth ers yr ymweliad monitro diwethaf, fodd bynnag, cofnodwyd sylw mewn adolygiad a gwblhawyd ym mis Awst 2018 gan weithiwr cymdeithasol i berthynas, eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal yn y cartref ac roedd pethau'n parhau i wella ers i'r rheolwr newydd fod yn y swydd.
- 3.4.4** Amlygwyd bod llawr pren newydd wedi'i osod yn y lolfa, mae'r lolfa wedi ei hailaddurno, llawr newydd yn yr ardal fwyta a dodrefn newydd yn yr ardaloedd cymunedol dros y flwyddyn ddiwethaf.

3.4. Adborth staff

- 3.5.1** Siaradodd y swyddog monitro contractau ag 1 aelod o staff fel rhan o'r broses fonitro: roeddent yn ymwybodol o ble yr oedd yr holl ddogfennau'n cael eu storio ac

yn nodi y byddai unrhyw newidiadau i'r ddogfennaeth hon yn cael eu hamlygu yn y llyfr cyfathrebu ac wrth drosglwyddo.

3.5.2 Dywedwyd bod y rheolwr yn treulio amser yn cerdded o gwmpas y cartref ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r preswylwyr a'r aelodau staff. Dywedwyd wrth y swyddog monitro contract hefyd fod y rheolwr yn hawdd mynd ato ac yn gefnogol. Er bod y staff cymorth yn dweud eu bod yn treulio llawer o amser yn y gymuned gyda phreswylwyr, mae hyn yn anoddach ar yr adeg hon o'r flwyddyn oherwydd y tywydd ac oriau golau dydd byrrach.

3.5.3 Yn ystod y sgwrs, dangosodd yr aelod o staff wybodaeth a dealltwriaeth glir o'r bobl sy'n derbyn eu cymorth, e.e. mae un gŵr nad yw'n hoffi sgwrsio neu 'mân-siarad' ac mae'n well ganddo ofyn cwestiynau byr, uniongyrchol ac i unrhyw sgwrs fod yn fer. Dywedodd hefyd ei bod yn gorfod bod yn ystyriol iawn am bwnc gofal personol a dweud 'ymolchi' yn lle 'cawod'.

3.5.4 Eglurodd yr aelod staff y gallai hi fod yn hyblyg yn ei rôl a chael cyfle i eistedd a sgwrsio gyda'r preswylwyr. Dywedodd ei bod yn gallu cynnig awgrymiadau pe bai unrhyw beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth a theimlai y byddai ei barn yn cael ei hystyried. Nid oedd unrhyw faterion o gwbl ar adeg yr ymweliad ynghylch sut y cafodd y cartref ei redeg.

3.5. Adborth preswylwyr

3.6.1 Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r adborth preswylwyr yn cael ei gasglu'n anffurfiol trwy sgwrs (lle bo modd) neu drwy ystumiau a'r golwg sydd ar wynebau pobl. Gwahoddir preswylwyr i fynychu cyfarfodydd y cartref i drafod y gwasanaeth yn ei chyfanrwydd. Mae preswylwyr hefyd yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd blynyddol gyda'u gweithiwr cymdeithasol y gellir eu cynnal mewn cyfnodau byrrach os oes angen.

3.6.2 Siaradwyd ag un o'r preswylwyr yn ystod yr ymweliad a dywedodd ei fod yn dod ymlaen yn dda gyda'r staff a'r preswylwyr eraill sy'n byw yn Nhŷ Gwernen. Dywedodd ei fod yn gallu mynd allan ac ymweld â'u merch a 3 mab.

3.6.3 Dywedodd y preswilydd ei fod yn gallu mynd allan yn annibynnol a dywedodd wrth y swyddog monitro contract nad oedd unrhyw beth newydd neu wahanol yr oedd am roi cynnig arni, a bod yr holl staff a oedd yn gweithio yn y cartref yn garedig iawn: os oedd unrhyw beth nad oedd yn hapus â hi dywedodd y byddai'n siarad â Laura am hyn. Pan ofynnwyd iddo, nid oedd unrhyw beth y gallai'r preswilydd feddwl amdano fyddai'n gwella'r gwasanaeth.

3.6.4 Pan ofynnwyd iddo a oedd yn hapus ag addurniad y cartref dywedodd ei fod yn hapus a bod ei ystafell wedi cael ei hailaddurno yn ddiweddar.

3.6. Adborth perthnasau

3.7.1 Yn ystod yr ymweliad, roedd y swyddog monitro contract yn gallu siarad â 2 berthynas un o'r preswylwyr: roedd y ddau berthynas yn ganmoliaethus iawn am y

gwasanaeth. Dywedodd un perthynas fod y rheolwr yn arbennig yn gofalu amdani gystal â'i gŵr.

3.7.2 Teimlodd y ddau berthynas bod y gŵr yn derbyn gofal da, a dywedwyd y bu'n byw yno am 7 mlynedd. Yn ystod y sgwrs, dywedasant fod staff gofal yn mynd gam ymhellach na'r hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud.

3.7.3 Dywedwyd wrth y swyddog monitro contract, oherwydd bod aelodau'r staff yn adnabod y gŵr mor dda, maen nhw'n gwybod sut i'w gynorthwyo gyda bwyta, sut i'w wneud yn gyfforddus a sut i'w sicrhau.

3.7.4 Roedd y ddau berthynas yn hyderus pe bai unrhyw bryderon mewn perthynas ag iechyd y gŵr y byddai staff yn eu hysbysu ac yn galw am y meddyg neu ambiwlans ar unwaith. Dywedasant eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn o'r hyn oedd yn digwydd yn y cartref ac roedd y rheolwr bob amser yn hawdd mynd ato pe byddai unrhyw beth yr oeddent am ei drafod.

3.8 Sylwadau'n gyffredinol

3.8.1 Nid oedd unrhyw faterion o gwbl gyda gwedd unrhyw un o feysydd y cartref a welwyd yn ystod yr ymweliad. Ymddengys bod un ystafell brin wedi ei haddurno, ond cydnabuwyd bod hyn oherwydd bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud.

3.8.2 Roedd yr awyrgylch yn y cartref yn hamddenol ac roedd y preswylwyr a welwyd ac a siaradwyd â nhw yn ymddangos yn fodlon. Roedd aelodau'r staff yn wybodus am y preswylwyr a gwelwyd eu bod yn rhyngweithio'n dda iawn â hwy yn ogystal ag aelodau eraill o'r tîm.

4. Gweithredoedd Cywirol / Datblygiadol

4.1. Gweithredoedd cywirol (Y terfyn amser ar gyfer yr holl weithredoedd yw 28.02.19)

4.1.1 Asesiadau risg a chynlluniau personol i beswylwyr i gael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a ddarperir (Rheoliadau RISCA 7 ac 16)

4.1.2 Y rheolwr i gofnodi arsylwadau staff yn cyflawni tasgau penodol i ddangos effeithiolrwydd hyfforddiant a chymhwysedd staff (Rheoliad RISCA 36)

4.1.3 Pob aelod o staff i gwblhau eu harfarniad blynyddol (Rheoliad RISCA 36)
Dywedodd y rheolwr y cwblhawyd hyn erbyn diwedd mis Rhagfyr: tystiolaeth i'w gweld yn ystod yr ymweliad nesaf.

4.2. Gweithredoedd datblygiadol

4.2.1 Gwybodaeth ychwanegol i'w hymgorffori mewn cofnod o weithgareddau fel tystiolaeth o hyrwyddo annibyniaeth

4.2.2 Pob aelod o staff i fod yn wylidwrus wrth gofnodi unrhyw wrthodiadau gan bobl nad ydynt am gymryd rhan mewn gweithgareddau.

- 4.2.3** Gwybodaeth ychwanegol i'w hymgorffori mewn cofnod o weithgareddau fel tystiolaeth o hyrwyddo annibyniaeth. Ystyriaeth i'w rhoi i'r syniad o reolwyr yn cyfnewid cartrefi i ddarparu hyfforddiant.
- 4.2.4** Y rheolwr i archwilio dulliau o gyflwyno'r cynnig rhagweithiol yn y dyfodol os bydd rhywun sydd â'i iaith gyntaf yn Gymraeg yn dymuno symud i'r eiddo (yn unol â rheoliad RISCA 24).
- 4.2.5** Mae'n arfer da sicrhau bod o leiaf 2 gyfwelydd yn bresennol yn ystod pob cyfweliad.
- 4.2.6** Pob cyfwelydd i lofnodi a dyddio'r ddogfen a chofnodi eu dynodiad o fewn y cwmni.
- 4.2.7** Ar ôl eu hadolygu, dylid llofnodi a dyddio polisïau a gweithdrefnau gyda dynodiad yr adolygydd a dyddiad yr adolygiad nesaf.
- 4.2.8** Mae'n arfer da i adolygu polisïau a gweithdrefnau bob blwyddyn.

5. Casgliad

- 5.1** Ni chodwyd unrhyw bryderon yn ystod yr ymweliad monitro ac roedd yn amlwg bod y tîm staff yn ymddangos yn sefydlog ac yn cyfathrebu'n effeithiol a chydweithio'n dda.
- 5.2** O ganlyniad i'r newid yn y ddeddfwriaeth, mae rhai camau ychwanegol i'w cyflawni, ond mae hyn yn weinyddol yn hytrach nag yn effeithio ar y gofal a'r gefnogaeth a dderbynnir gan y preswylwyr.
- 5.3** Roedd yr holl berthnasau a phreswylwyr y siaradwyd â nhw fel rhan o'r ymweliad yn llawn canmoliaeth ac nid oedd unrhyw beth y gellid ei nodi a fyddai'n gwella ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth. Pwysleisiwyd y byddai'r holl staff yn elwa o fod yn rhagweithiol wrth gofnodi unrhyw ganmoliaeth yn y llyfr perthnasol, fel y gellid rhannu hyn gyda phartion perthnasol.
- 5.4** Hoffai'r tîm monitro contract gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'r broses fonitro am eu hamser a'u lletygarwch. Yn unol â'r strategaeth fonitro, cynhelir ymweliad monitro arall mewn oddeutu 12 mis oni bai ei bod yn angenrheidiol ei wneud ymlaen llaw.

Awdur: Amelia Tyler
Dynodiad: Swyddog Monitro Contract
Dyddiad: 22 Ionawr 2019

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael trwy wefan Rhynggrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copiâu caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar preswylwyr a/neu eu teuluoedd pe baent yn gofyn i'w gweld.